

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU  
NOS IAU 18<sup>fed</sup> IONAWR 2018  
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:  
Cynghorwyr:  
Erwyn Jones - Cadeirydd  
Mel Goch ap Meirion  
Annwen Daniels  
Bedwyr Gwilym  
Ronwen D Roberts  
Will G Roberts  
Glyn Daniels  
Mark Thomas

Ymddiheuriad:  
Cynghorydd:

**DATGAN DIDDORDEB**

**Cynghorydd Mel Goch ap Meirion – Y Dref Werdd**  
**Cynghorydd Annwen Daniels – Y Dref Werdd**

**1. Toiledau Diffwys**

Trafod ystyried i'r Cyngor Tref eu rhedeg. Tybir bod costau rhedeg y toiledau oddeutu £10,500 y flwyddyn gyda'r Cyngor Tref yn barod yn cyfrannu £4000 tuag at eu rhedeg drwy'r flwyddyn.

**Argymhelliad:**

I dderbyn y wybodaeth parthed y costau rhedeg, i holi Llywodraeth Cymru os oes arian ar gael tuag at redeg toiledau cyhoeddus ar gefnffordd. I drafod hyn ymhellach pan fydd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru i law.

**2. Maes Parcio Diffwys**

Trafod ystyried os yw'r Cyngor Tref yn arwyddo cytundeb cynllun partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd sef Cynllun Parcio 10%. Golygai hyn y gall y Cyngor Tref dderbyn yn oddeutu £3,159.71 y flwyddyn mewn incwm.

**Argymhelliad:**

Cytunwyd i arwyddo'r cytundeb, ac i ddefnyddio'r arian tuag at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus os bydd y Cyngor Tref yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt.

**3. Adroddiad Caeau Chwarae**

Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae. Roedd sawl nam ar y caeau yn ôl yr adroddiadau mis yma, ond cafwyd eglurhad mai gwall wrth y gwblhau'r ffurflenni oedd hyn a bod y gwaith wedi ei gwblhau cyn dyddiad yr adroddiadau.

**Argymell:** I dderbyn yr adroddiadau ac yr eglurhad am y gwallau.

**4. Cae Manod**

Mae'r Cyngor Tref wedi cael pris ar gyfer sawl math gwahanol o offer newydd i Gae Manod yn lle'r offer pren sydd wedi pydru erbyn hyn. Bu i'r Cyngor dderbyn amcan bris gan gwmni Playquest am offer wedi ei wneud o blastig wedi ei ailgylchu o £13,100 heb TAW. Mae'r pris yn cynnwys matiau diogelwch a gosod yr offer.

**Argymhelliad:**

I dderbyn pris yr offer gan Playquest.

- 5. Cae Baltic**  
Trafod pris ar gyfer ffens o amgylch y cae er mwyn i'r Cyngor Tref sicrhau diogelwch y plant wrth chwarae. Mae pedwar cwmni wedi cael cynnig rhoi pris ar gyfer y gwaith hwn ond hyd yn hyn nid oes pris am y gwaith i law.  
**Argymhelliad:**  
I aros nes bydd pris wedi ei dderbyn.
- 6. Arwyddion newydd**  
Trafod dyluniad arwyddion newydd ar gyfer trefeillio, Dim Cŵn a'r Parc Sglefrio  
**Argymhelliad:**  
I dderbyn dyluniad yr arwyddion.
- 7. Dref Werdd**  
**DATGAN DIDDORDEB**  
**Cynghorydd Mel Goch ap Meirion**  
**Cynghorydd Annwen Daniels**  
Cais i'r Cyngor Tref ystyried i ddefnyddio'r Dref Werdd i ddelio gyda rhododendron ar y llwybrau cyhoeddus, yn debyg i'r gwaith gyda llysiau'r dial gwnaethpwyd yn ystod yr Haf.  
**Argymhelliad:**  
Cytunwyd i gyd weithio a'r Dref Werdd i ddelio a rhododendron ar y llwybrau cyhoeddus.
- 8. Amseroedd Bysus**  
Trafod beth all y Cyngor ei wneud i hwyluso amseroedd bysus sydd ar hyn o bryd yn creu problemau mawr yn sgil cwmni wedi colli cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.  
**Argymhelliad:**  
I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt gadarnhau bydd y gwasanaeth yn cael ei ddychwelyd i'r gwasanaeth llawn pan fyddant wedi gosod y cytundebau newydd.
- 9. Gŵyl Llechi**  
Cafwyd gwybodaeth bod y Gŵyl Llechi i'w gynnal yn lleol rhwng 14 - 21 Gorffennaf eleni.  
**Argymhelliad:**  
I dderbyn y wybodaeth
- 10. Antur Stiniog**  
Bu i gyfarfod rhwng y Cyngor Tref ac Antur Stiniog i drafod y posibilrwydd o'r Cyngor Tref yn prynu'r adeilad gael ei ohirio'n ddiweddar. Trefnu dyddiad arall ar gyfer y cyfarfod.  
**Argymhelliad:**  
I drefnu cwrdd ag Antur Stiniog ar ddechrau cyfarfod Pwyllgor Mwynderau nos Iau 15<sup>fed</sup> o Chwefror am 7.00 o'r gloch.